

# **Hysbysiad preifatrwydd yn ymwneud â phrosesu data personol gan yr ysgol wrth ymdrin â chwynion yn yr ysgol**

**(Fersiwn 1.1 – er 21.02.2023)**



**MAE EICH DATA O BWYS      YOUR DATA MATTERS**

## Y broses gwyno

Mae'n rhaid i ysgolion ddelio â chwynion yn unol â'r [gweithdrefnau cwynion ar gyfer cyrff llywodraethu ysgolion yng Nghymru](#).

Diffiniad Llywodraeth Cymru o gŵyn yw 'mynegiant o anffodlonrwydd mewn perthynas â'r ysgol neu aelod o'i staff sy'n gofyn am ymateb gan yr ysgol'.

Mae tri cham i'r broses gwyno:

1) **Cam A** – Codi'r gŵyn gyda'r Ysgol.

- Bydd yr aelod o staff yn yr ysgol sy'n gyfrifol am ddelio â chwynion yn cychwyn ar y broses ymchwilio
- Yn dilyn yr ymchwiliad pan fydd unigolion wedi rhoi manylion pellach, bydd y person sydd wedi gwneud y gŵyn yn derbyn adborth beth bynnag yw canlyniad yr ymchwiliad

Os na chaiff y gŵyn ei datrys erbyn y cam yma, bydd y gŵyn yn symud i Gam B.

2) **Cam B** – Y gŵyn yn cael ei throsglwyddo i'r Pennaeth<sup>1</sup>.

- Bydd y Pennaeth yn adolygu'r gŵyn a'r ymchwiliad cychwynnol
- Mae modd i'r Pennaeth gysylltu â'r person sydd wedi gwneud y gŵyn i drefnu cyfarfod i drafod y gŵyn a chanlyniad yr ymchwiliad
- Bydd y Pennaeth yn ysgrifennu llythyr yn ymateb i'r person sydd wedi gwneud y gŵyn ynglŷn â chanlyniad yr adolygiad

Os na chaiff y gŵyn ei datrys erbyn y cam yma, bydd y gŵyn yn symud i Gam C.

3) **Cam C** – Bydd y gŵyn yn cael ei throsglwyddo i Gadeirydd y Corff Llywodraethu.

- Bydd y gŵyn, yr ymchwiliad cychwynnol ac adolygiad y Pennaeth yn cael eu trafod gan Bwyllgor Cwynion yr Ysgol
- Bydd y person sydd wedi gwneud y gŵyn yn cael gwybod am ganlyniad y Pwyllgor Cwynion

---

<sup>1</sup> Bydd cwynion yn ymwneud â'r Pennaeth yn cael eu throsglwyddo i Gadeirydd y Corff Llywodraethu.

## Ynglŷn â'r Hysbysiad Preifatrwydd yma

Mae'r hysbysiad preifatrwydd yma'n berthnasol i ddata personol sy'n cael ei brosesu gan ysgolion cynradd, uwchradd ac ysgolion pob oed yn Rhondda Cynon Taf (RhCT) dan ofal yr awdurdod lleol ('Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf' 'CBSRhCT'). Mae e hefyd yn berthnasol i ddata personol sy'n cael ei brosesu gan ysgolion ffydd yn RhCT sy'n cael eu hariannu'n wirfoddol.

Cliciwch [yma](#) am restr lawn o'r ysgolion y mae'r hysbysiad preifatrwydd yma'n berthnasol iddyn nhw.

Mae'r hysbysiad preifatrwydd yma wedi'i ddarparu gan CBSRhCT ar gyfer ac ar ran ysgolion o dan Gytundeb Lefel Gwasanaeth ar ddiogelu data.

## Cyflwyniad

Bwriad yr hysbysiad preifatrwydd yma yw rhoi gwybodaeth am sut y bydd yr ysgol yn defnyddio (neu'n 'prosesu') data personol am unigolion, gan gynnwys ein disgyblion presennol, blaenorol a darpar ddisgyblion a'u rhieni, cynhalwyr neu warcheidwaid (yn yr hysbysiad bydd 'rhieni' yn cyfeirio at y rhain) at ddiben ymdrin â chwynion yn yr ysgol.

Er ein bod ni wedi ceisio gwneud yr hysbysiad preifatrwydd yma mor glir a chryno â phosibl, mae modd i'r categorïau o ddata personol rydyn ni'n eu prosesu amrywio yn dibynnu ar natur y gŵyn a phwy neu beth y mae'r gŵyn yn ymwneud ag ef. Os oes angen rhagor o wybodaeth benodol am eich plentyn, mae croeso i chi gysylltu â'r Arweinydd Diogelu Data.

Dim ond y lleiafswm o wybodaeth sydd ei hangen mewn perthynas â'r diben fydd yn cael ei phrosesu.

Dylech chi ddarllen yr hysbysiad yma ynghyd â'r dogfennau canlynol sydd ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â'r Arweinydd Diogelu Data.

- Hysbysiad Preifatrwydd Cyffredinol
- Polisi Cwynion
- [Gweithdrefnau Cwynion Cyrrff Llywodraethu Ysgolion yng Nghymru](#)
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf – Hysbysiad preifatrwydd Cymorth i Lywodraethwyr yn ymwneud â [chwynion yn yr ysgol](#)

## Y Rheolydd Data

Yr ysgol yw'r rheolydd data ar gyfer y data personol rydyn ni'n ei brosesu, oni bai bod nodyn yn dweud fel arall. Mae hyn yn cynnwys y data personol sy'n cael ei brosesu gan y Corff Llywodraethu, y Pennaeth, llywodraethwyr unigol, athrawon, cynorthwywyr addysgu, staff cymorth ac ati. Mae'r ysgol wedi'i chofrestru gyda'r Comisiynydd Gwybodaeth fel rheolydd data.

## Sut i gysylltu â ni ynglŷn â materion neu bryderon diogelu data

Arweinydd Diogelu Data'r ysgol yw'r prif bwynt cyswllt ar gyfer materion diogelu data. Mae modd cysylltu â'r Arweinydd Diogelu Data gan ddefnyddio ein dulliau cyswllt arferol – dros y ffôn, e-bost, post ac wyneb yn wyneb yn yr ysgol. Cliciwch [yma](#) am fanylion cyswllt.

## Y Swyddog Diogelu Data

Mae CBSRhCT yn darparu gwasanaeth cymorth diogelu data i'r ysgol o dan Gytundeb Lefel Gwasanaeth, gan gynnwys darparu Swyddog Diogelu Data.

Mae modd cysylltu â'r Swyddog Diogelu Data ynglŷn â materion diogelu data. Fodd bynnag, rydyn ni'n eich annog chi i gysylltu â'r ysgol yn y lle cyntaf. Os bydd angen i chi gysylltu â'r Swyddog Diogelu Data yn benodol, mae modd i chi wneud hynny drwy e-bostio'r cyfeiriad canlynol:

- [Rheoli.Gwybodaeth@rctcbc.gov.uk](mailto:Rheoli.Gwybodaeth@rctcbc.gov.uk)

Wrth gysylltu â'r Swyddog Diogelu Data, rydyn ni'n argymhell eich bod chi'n anfon copi o'r ohebiaeth at yr ysgol yn rhan o'i rôl fel rheolydd data.

## Y mathau o ddata personol rydyn ni'n eu prosesu

Rydyn ni'n prosesu'r categorïau data personol canlynol er mwyn cyflawni ein swyddogaethau statudol i ymdrin â chwynion sy'n ymwneud ag ysgolion;

### a) Data personol yn ymwneud â'r person sydd wedi gwneud y gŵyn

Wrth wneud cwyn i'r ysgol, byddwn ni'n gofyn i'r person sydd wedi gwneud y gŵyn roi cymaint o fanylion â phosibl i ni fel bod modd i ni ymchwilio i'r gŵyn.

Byddwn ni'n gofyn i'r person sydd wedi gwneud y gŵyn ddarparu'r wybodaeth ganlynol amdano fe/amdani hi ei hunan, neu'r person y mae'n cwyno ar ei ran:

- Enw
- Cyfeiriad
- Rhif ffôn
- Cyfeiriad e-bost
- Perthynas â'r person mae'r gŵyn ar ei ran (os yw'n berthnasol)
- Gwybodaeth yn ymwneud â'r gŵyn

### b) Data personol yn ymwneud â'r person y mae'r gŵyn yn ymwneud ag ef/hi

Mae modd i gwynion ymwneud ag amrywiaeth o bobl gan gynnwys:

- Disgyblion
- Rhiant (Rhieni)/Gwarcheidwa(i)d:
- Aelod(au) o Staff
- Aelod(au) o'r Corff Llywodraethu

Byddwn ni'n gofyn i'r person sydd wedi gwneud y gŵyn ddarparu cymaint o wybodaeth â phosibl yn ymwneud â'r person y mae'r gŵyn yn ymwneud ag ef/hi. Mae'r wybodaeth yma'n bwysig i'r ymchwiliad gan fod angen i ni sicrhau ein bod ni'n ymchwilio i gŵyn am y person iawn. Mae modd i'r wybodaeth gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i:

- Enw'r person y mae'r gŵyn yn ymwneud ag ef/hi
- Disgrifiad o'r person y mae'r gŵyn yn ymwneud ag ef/hi os nad yw'r enw'n hysbys.

- Teitl swydd y person y mae'r gŵyn yn ymwneud ag ef/hi (os yw'r gŵyn yn ymwneud ag aelod o staff neu lywodraethwr)
- Dosbarth neu grŵp blwyddyn os yw'r gŵyn yn ymwneud â disgybl
- Gwybodaeth yn ymwneud â'r gŵyn

### c) Data personol yn ymwneud â thyst

Efallai y bydd achlysuron pan fydd tyst i achlysur sy'n destun cwyn. Mae modd i dyst fod yn aelod o staff, yn ddisgybl, yn aelod o'r cyhoedd neu'n aelod o'r Corff Llywodraethu.

Fel rhan o ymchwiliad, efallai y bydd angen i ni gysylltu â'r tyst i gael gwybodaeth ganddo ef/ganddi hi.

Rydyn ni'n debygol o brosesu'r wybodaeth ganlynol sy'n ymwneud â thyst;

- Enw'r tyst
- Manylion cyswllt, e.e. cyfeiriad, rhif ffôn a chyfeiriad e-bost
- Pwy ydy ef/hi, e.e. gweithiwr, disgybl, rhiant, ac ati
- Manylion am y digwyddiad

### **Pam rydym ni'n prosesu data personol?**

Rydym ni'n prosesu'r data personol er mwyn ymdrin â chŵyn i'r ysgol. Mae modd i hyn gynnwys y gweithgareddau canlynol ymhlith rhai eraill;

- Cofnodi a chydabod y gŵyn
- Ymchwilio i'r gŵyn
- Cyfweld, cyfarfod a chasglu gwybodaeth gan y rhai sy'n ymwneud â'r gŵyn, e.e. y person y mae'r gŵyn yn ymwneud ag ef/hi, tyst, ac ati
- Rheoli'r gŵyn drwy gydol y camau cwyno – mae modd i hyn gynnwys cyfeirio'r gŵyn at y Corff Llywodraethu neu banel cwynion annibynnol
- Cadw mewn cysylltiad â'r rhai sy'n ymwneud â'r gŵyn drwy gydol y broses/camau cwyno, e.e. y person sydd wedi gwneud y gŵyn, y person y mae'r gŵyn yn ymwneud ag ef/hi
- Cofnodi canlyniad y gŵyn

- Gofyn am gyngor gan wasanaethau cymorth busnes yr Awdurdod Lleol (CBSRhCT), e.e. Cymorth i Lywodraethwyr, Gwasanaethau Cyfreithiol, y Garfan Rheoli Gwybodaeth, Adnoddau Dynol, ac ati, yn dibynnu ar natur a difrifoldeb y gŵyn

## Ein sail gyfreithiol ar gyfer prosesu'r data personol;

O dan y Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR), ein sail gyfreithlon ar gyfer prosesu'r data personol i ymdrin â'r gŵyn yw;

- **Tasg Gyhoeddus** - Erthygl 6 (e) – prosesu sy'n angenrheidiol ar gyfer cyflawni tasg er budd y cyhoedd neu arfer awdurdod swyddogol sydd wedi'i roi i'r rheolwr
- **Budd sylweddol i'r cyhoedd** - Erthygl 9 (2) (g) - prosesu sy'n angenrheidiol er budd sylweddol y cyhoedd, ar sail cyfraith Undebol neu aelod-wladwriaeth sy'n gyfraneddol i'r nod, yn parchu hanfod hawliau diogelu data ac yn darparu mesurau addas a phenodol i ddiogelu hawliau sylfaenol a buddion y person y mae'r data amdano

Y ddeddfwriaeth sy'n ategu hyn yw;

- Gweithdrefnau Cwynion Cyrff Llywodraethu Ysgolion yng Nghymru
- Deddf Addysg 2002
- Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005
- Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2015

## Gan bwy ac o ble rydyn ni'n casglu data personol?

Mae'n bosibl y byddwn ni'n derbyn y data personol gan unigolion neu sefydliadau yn y categorïau canlynol;

- Y person sydd wedi gwneud y gŵyn
- Y person y mae'r gŵyn yn ymwneud ag ef/hi
- Tystion a'r rhai sy'n gysylltiedig â'r gŵyn
- Staff yr ysgol
- Y Corff Llywodraethu

- Panel Cwynion Annibynnol

Gwasanaethau cymorth Awdurdodau Lleol megis Cymorth i Lywodraethwyr, Gwasanaethau Cyfreithiol, Rheoli Gwybodaeth ac Adnoddau Dynol ac ati yn dibynnu ar natur a difrifoldeb y gŵyn.

## Gyda phwy rydyn ni'n rhannu data personol

Mae'n bosibl y byddwn ni'n rhannu data personol gyda'r unigolion a'r sefydliadau allweddol canlynol er mwyn ymdrin â'r gŵyn.

Dim ond yr wybodaeth sydd ei hangen mewn perthynas â'r diben fydd yn cael ei rhannu. Bydd yr wybodaeth fydd yn cael ei rhannu a gyda phwy y caiff ei rhannu yn dibynnu ar natur a difrifoldeb y gŵyn a cham perthnasol y gŵyn.

<b>Pwy</b>	<b>Diben</b>
Y person sydd wedi gwneud y gŵyn	Diben statudol – ymdrin â chŵyn am/yn yr ysgol
Y person y mae'r gŵyn yn ymwneud ag ef/hi	Diben statudol – ymdrin â chŵyn am/yn yr ysgol
Tystion a phobl eraill sy'n gysylltiedig	Diben statudol – ymdrin â chŵyn am/yn yr ysgol
Aelodau o staff ysgol perthnasol	Diben statudol – ymdrin â chŵyn am/yn yr ysgol
Y Corff Llywodraethu	Diben statudol – ymdrin â chŵyn am/yn yr ysgol
Panel Cwynion Annibynnol	Diben statudol – ymdrin â chŵyn am/yn yr ysgol
Cymorth i Lywodraethwyr / Clerc sydd wedi'i benodi i'r Corff Llywodraethu	Diben statudol – ymdrin â chŵyn am/yn yr ysgol
Gwasanaethau Cymorth Materion Busnes yr Awdurdod Lleol	Megis Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol, Rheoli Gwybodaeth  Diben statudol – ymdrin â chŵyn am/yn yr ysgol – gofyn am gyngor a chymorth perthnasol yn dibynnu ar natur a difrifoldeb y gŵyn.
Yr heddlu	Diben statudol – ymdrin â chŵyn am/yn yr ysgol



	Mewn amgylchiadau eithriadol – pan mae'r gŵyn yn ymwneud ag achlysur o natur droseddol – mae'n bosibl y bydd angen cynnwys yr heddlu yn rhan o'r mater.
--	---

## Proseswyr data

Mae prosesydd data yn gwmni neu sefydliad sy'n prosesu data personol ar ran rheolydd. Mae'r ysgol yn defnyddio proseswyr data sy'n darparu gwasanaethau i ni. Y categori o broseswyr data y mae'r ysgol yn eu defnyddio mewn perthynas â phrosesu data cwynion yw;

- Cyflenwyr systemau/darparwyr gwasanaeth TGCh cyffredinol

Mae ein proseswyr data yn gweithredu ar sail ein cyfarwyddyd ni yn unig. Does dim modd iddyn nhw wneud unrhyw beth â'r data personol heb i ni eu cyfarwyddo nhw. Fyddan nhw ddim yn rhannu'r wybodaeth bersonol ag unrhyw sefydliad ar wahân i ni nac yn ei defnyddio at eu dibenion eu hunain. Byddan nhw'n ei dal yn ddiogel ac yn ei chadw am y cyfnod rydyn ni wedi'u cyfarwyddo i wneud hynny.

Os oes gyda chi ymholiad penodol yn ymwneud â'n proseswyr data, cysylltwch â'r Arweinydd Diogelu Data.

## Am ba mor hir y byddwn ni'n cadw'r data personol?

Rydyn ni'n cadw'r data personol sydd wedi'i gynnwys mewn cofnodion cwynion yn unol â'r argymhellion yng Ngweithdrefnau Cwyno Llywodraeth Cymru ar gyfer ysgolion a chyrrff llywodraethu yng Nghymru;

Cofnod	Darpariaeth Statudol	Cyfnod Cadw'r Wybodaeth
Cofnodion cwynion	Argymhellion sydd wedi'u cynnwys yng Ngweithdrefnau Cwyno Llywodraeth Cymru ar gyfer ysgolion a chyrrff llywodraethu yng Nghymru.	7 mlynedd

Er mwyn dilyn egwyddor storio data Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol, mae'r cofnodion yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Fydd yr holl ddata personol ddim yn cael ei gadw. Dim ond data personol sy'n berthnasol i'r cofnod sy'n cael ei gadw am y cyfnod cadw i gyd (e.e. y gŵyn, y canlyniad, ac ati). Caiff unrhyw wybodaeth sy'n amherthnasol yn yr hir dymor neu sy'n amherthnasol yn dystiolaethol ei dinistrio yn y cwrs busnes arferol.

## **Eich hawliau diogelu data**

O dan gyfraith diogelu data, mae hawliau gyda chi y mae angen i ni roi gwybod i chi amdanyn nhw. Mae'r hawliau sydd ar gael i chi yn dibynnu ar ein rheswm ni dros brosesu eich data personol.

### **Eich hawl i gael mynediad**

Mae hawl gyda chi i ofyn i ni am gopiâu o'ch data personol. Mae'r hawl yma wastad yn berthnasol. Mae ambell i eithriad sy'n golygu efallai na fyddwch chi bob amser yn derbyn yr holl ddata rydyn ni'n ei brosesu. Mae modd i chi [ddarllen rhagor am yr hawl yma ar wefan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth](#).

### **Eich hawl i gael eich data wedi'i gywiro**

Mae hawl gyda chi i ofyn i ni gywiro data personol sy'n anghywir yn eich barn chi. Hefyd, mae gyda chi'r hawl i ofyn i ni gwblhau gwybodaeth sy'n anghyflawn yn eich barn chi. Mae'r hawl yma wastad yn berthnasol. [Mae modd i chi ddarllen rhagor am yr hawl yma ar wefan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth](#).

### **Eich hawl i gael eich data wedi'i ddileu**

Mae hawl gyda chi i ofyn i ni ddileu eich data personol o dan amgylchiadau penodol. [Mae modd i chi ddarllen rhagor am yr hawl yma ar wefan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth](#).

### **Eich hawl i gyfyngu ar sut mae sefydliadau'n defnyddio eich data**

Mae hawl gyda chi i ofyn i ni gyfyngu ar brosesu eich data personol mewn amgylchiadau penodol. [Mae modd i chi ddarllen rhagor am yr hawl yma ar wefan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth](#).

### **Eich hawl chi i wrthwynebu'r defnydd o'ch data**

Mae hawl gyda chi i wrthwynebu i ni brosesu eich data personol mewn amgylchiadau penodol. [Mae modd i chi ddarllen rhagor am yr hawl yma ar wefan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth](#).

### **Eich hawl chi i hygludedd data**

Dim ond i ddata personol rydych chi wedi'i roi i ni y mae hyn yn berthnasol. Mae hawl gyda chi i ofyn i ni drosglwyddo'r data personol gwnaethoch chi ei roi i ni o un sefydliad i'r llall neu ei roi e i chi. Mae'r hawl yma'n berthnasol dim ond os ydyn ni'n prosesu'r data personol gyda'ch caniatâd chi neu'n rhan o sgysiau am ymrwymo i gontract a bod y prosesu'n cael ei wneud yn awtomatig. [Mae modd i chi ddarllen rhagor am yr hawl yma ar wefan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth](#).

Does dim rhaid i chi dalu am arfer eich hawliau. Mae gyda ni fis i ymateb i'ch cais chi o'r dyddiad dilysu eich cais. Mae modd i ni ymestyn y cyfnod yma am ddau fis arall os yw'r cais yn gymhleth neu os byddwn ni'n derbyn nifer o geisiadau oddi wrthoch chi.

Cysylltwch ag Arweinydd Diogelu Data'r ysgol os hoffech chi wneud cais.

### **Eich hawl chi i wneud cwyn diogelu data i'r ysgol**

Mae hawl gyda chi i gwyno i'r ysgol os ydych chi'n credu dydyn ni ddim wedi trin eich data personol yn gyfrifol nac yn unol ag arfer da.

Os oes pryder gyda chi, rydyn ni'n eich annog chi i gysylltu â'r Arweinydd Diogelu Data yn y lle cyntaf. Mae modd datrys y rhan fwyaf o bryderon yn gymharol gyflym trwy alwad ffôn syml neu e-bost i'r ysgol. Os dymunwch chi wneud cwyn ffurfiol mae modd i chi wneud hynny drwy ein polisi cwynion.

### **Eich hawl chi i wneud cwyn diogelu data i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth**

Mae modd i chi hefyd gwyno i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth os ydych chi'n anfodlon â sut rydyn ni wedi defnyddio'ch data.

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:

- Cyfeiriad: Information Commissioner's Office, Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Cheshire, SK9 5AF
- Rhif y Llinell Gymorth: 0303 123 1113
- Gwefan: <https://cy.ico.org.uk>

## Rheoli'r Fersiwn

<b>Rhif y Fersiwn</b>	<b>Dilys o</b>	<b>Dilys hyd at</b>	<b>Sylwadau</b>
1.0	09.08.2022	21.02.2023	Llunio'r ddogfen. Y ddogfen derfynol.
1.1	21.02.2023		Adolygwyd 21.02.2023 yn unol â gwelliant i fersiwn Saesneg.